Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 29.11.2022

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYMORTH: Parcio Nadolig am ddim yng Ngwynedd 10-27 Rhagfyr 2022

Er mwyn annog pobl i siopa'n lleol y Nadolig hwn, bydd parcio am ddim ym meysydd parcio Cyngor Gwynedd ar ôl 11:00am bob dydd rhwng 10 a 27 Rhagfyr 2022. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd25Tach2022

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol yn parhau. Lledaenwch y neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook
  https://www.facebook.com/prynulleol

- Twitter
  https://twitter.com/prynulleol

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleol/

Fel rhan o'r ymgyrch, bydd siopwyr yn cael eu cyfeirio at gyfeirlyfr o siopau lleol a gwybodaeth lletygarwch ar:

https://bit.ly/prynulleol_2020

I ymuno â'r cyfeirlyfr, cysylltwch â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

# CYFLE: Sadwrn y Busnesau Bach 2022

Bydd Sadwrn y Busnesau Bach 2022 yn digwydd dydd Sadwrn nesaf, 3 Rhagfyr 2022. Mae ystod o ddefnyddiau ar gael i'ch helpu chi i gymryd rhan, gan gynnwys pecyn marchnata am ddim sydd ar gael yn y Saesneg ac yn y Gymraeg – ewch i:

https://smallbusinesssaturdayuk.com

# ARIANNU: Cynllun grant £1.4 miliwn i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol i wella effeithlonrwydd ynni

Mae cynllun grant newydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparwyr gofal preswyl i weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni a charbon isel wedi'i lansio a bellach ar agor ar gyfer ceisiadau. Mae gan fusnesau cymwys tan 21 Rhagfyr 2022 i ymgeisio am gyllid. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/cynllun-grant-14-miliwn-i-gefnogir-sector-gofal-cymdeithasol-i-wella-effeithlonrwydd-ynni-bellach

## CYFLE: Cynllun Gwella Platfform Digidol Busnes@gwynedd.llyw.cymru

Peidiwch â methu'r cyfle – mae yna ambell le o hyd ar gyfer busnesau, yn y sectorau lletygarwch a bwyd a diod yng Ngwynedd, i gymryd rhan yng nghynllun Llwyfan Digidol Busnes@gwynedd.llyw.cymru. Bydd busnesau sy'n cymryd rhan yn gweithio gyda Cyflymu Cymru i Fusnesau i nodi eu hanghenion digidol ac yna yn derbyn hyfforddiant a mentora i wella eu sgiliau digidol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3AuERGR

Neu e-bostiwch: PlatfformDigidol@gwynedd.llyw.cymru

## DIGWYDDIAD: Dyfodol Digidol Gwyrdd 9 Rhagfyr 2022

Bydd digwyddiad 'Dyfodol Digidol Gwyrdd', i'w gynnal ar 9 Rhagfyr 2022 (10:00am-1:00pm) yn Busnes@LlandrilloMenai, Ffordd Penlan, Bangor LL57 4HJ, yn gyfle i ddathlu cynllun Academi Ddigidol Werdd Busnes@LlandrilloMenai, sydd wedi bod yn gweithio gyda busnesau i gynllunio a chymryd camau i gyrraedd sero net. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3XFfDz6

Mae gwybodaeth gyffredinol am yr Academi Ddigidol Werdd ar gael ar:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/projects/green-digital-academy

## DIGWYDDIAD: Busnes Cymdeithasol Cymru – Herio'r ffordd rydyn ni'n gwneud busnes 7 Rhagfyr 2022

Yn y digwyddiad wyneb yn wyneb yma, i'w gynnal yn Galeri, Caernarfon LL55 1SQ, ar 7 Rhagfyr 2022 (10:00am-1:00pm), bydd cyfle i ddysgu am achrediad B Corp, perchnogaeth gweithwyr a sut mae'r themâu hyn yn rhan annatod o gydbwyso elw a phwrpas. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3ijqj6d

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru